# Ordinhad 21 - Rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor

## 1. Penodi

(i) Penodir yr Ysgrifennydd i'r Cyngor i'r rôl honno gan y Cyngor ei hun, ac yn unol â darpariaethau (os oes rhai) offerynnau llywodraethu cyfreithiol y Brifysgol.

(ii) Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gan yr Ysgrifennydd i'r Cyngor rôl uwch briodol a'r lefel briodol o annibyniaeth i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol.

## 2. Diswyddo

(i) Gall y Cyngor ddiswyddo'r Ysgrifennydd i'r Cyngor o'r rôl hon am reswm da.

(ii) At ddiben yr Ordinhad hon ystyr "rheswm da" fydd ymddygiad o natur anghyfreithlon, anfoesol, dramgwyddus neu warthus y mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn anghydnaws â rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor.

## 3. Adrodd

(i) Waeth pa gyfrifoldebau eraill sydd gan y sawl a benodir, pan fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Cyngor, bydd y sawl a benodir yn atebol i'r Cyngor yn unig, bydd yn adrodd yn uniongyrchol i Gadeirydd y Cyngor mewn perthynas â busnes y Cyngor fel y'i diffinnir isod, a chaiff ei arfarnu yn unol â phroses a bennir gan y Cyngor.

## 4. Arweiniad a Chyngor

(i) Bydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn sicrhau y darperir arweiniad awdurdodol i'r Cyngor am ei gyfrifoldebau o dan Siarter, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, y mae'n ddarostyngedig iddynt, gan gynnwys deddfwriaeth a gofynion y Cyngor Cyllido ac unrhyw reoleiddwyr perthnasol, ac am sut y dylid cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

(ii) Bydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn sicrhau bod cyfrifoldebau newydd neu ddiwygiedig i'r Cyngor (e.e. o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd) yn cael eu dwyn at sylw'r Cyngor.

(iii) Bydd yr Ysgrifennydd yn rheoli Datgeliadau Budd Cyhoeddus ar ran y Cyngor.

(iv) Fel arfer, yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn unig sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor cyfreithiol neu ei geisio i'r Cyngor a bydd yn derbyn cyllideb i'r diben hwnnw, ac am gynghori'r Cyngor ar yr holl faterion mewn perthynas â gweithdrefnau.

(v) Bydd yr Ysgrifennydd (gan weithio gyda'r Swyddogion Gweithredol) yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennaeth a ddarperir i aelodau o'r Cyngor yn gryno a bod ei chynnwys yn briodol i alluogi'r Cyngor i arfer ei bwerau a'i gyfrifoldebau.

(vi) Mae gan yr Ysgrifennydd gyfrifoldeb i rybuddio'r Cyngor os ymddengys y byddai unrhyw weithred arfaethedig y tu hwnt i bwerau'r Cyngor neu'n groes i ddeddfwriaeth neu i ofynion y Cynghorau Cyllido neu reoleiddwyr eraill.

(vii) Bydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor mewn perthynas â hysbysiadau ffurfiol am ddigwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau a rheoleiddwyr eraill fel y bo'n briodol.

(viii) Bydd yr Ysgrifennydd yn cynghori'r Cyngor os ymddengys y byddai unrhyw weithred arfaethedig yn peri i'r Cyngor neu unrhyw un o'i aelodau ymwneud yn ormodol â swyddogaethau gweithrediadol, gweithredol neu reoli'r Brifysgol ac eithrio fel y caniateir hynny o dan yr Ordinhadau a'r Rheoliadau.

(ix) Gall unrhyw aelod o'r Cyngor geisio cyngor ei Ysgrifennydd ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i rwymedigaethau a'i ddyletswyddau fel aelod o Gyngor y Brifysgol.

(x) Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am drefnu rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd y Cyngor a bydd yn tynnu sylw aelodau'r Cyngor at weithgareddau hyfforddiant a drefnir yn fewnol a chan ddarparwyr allanol priodol, ac at ddeunyddiau cynghori ac arweiniad eraill ac am ddarparu diweddariadau rheolaidd.

(xi) Bydd yr Ysgrifennydd yn hwyluso cyfathrebu ynghylch materion y Cyngor rhwng Cadeirydd y Cyngor, yr Is-ganghellor ac uwch staff yn y Brifysgol.

## 5. Perthnasoedd Gweithio a Gwrthdaro Buddiannau

(i) Gall yr Ysgrifennydd i'r Cyngor gyfuno bod yn Ysgrifennydd i'r Cyngor ag uwch-rôl weinyddol neu reoli yn y Brifysgol a bydd yn ofalus i gadw'r ddwy rôl hyn ar wahân. Bydd y Cyngor yn adolygu, o leiaf bob tair blynedd, a oes risg i annibyniaeth rôl yr Ysgrifennydd.

(ii) Os daw'r Ysgrifennydd i'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau'r ddwy rôl wahanol, bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r Cyngor am hyn ar unwaith. Os yw'r Cyngor o'r farn ei fod wedi nodi gwrthdaro buddiannau o'r natur hon, rhoddir cyfle i'r Ysgrifennydd i'r Cyngor (ac i'r Is-ganghellor) i ymateb i gwestiwn o'r fath.

(iii) Disgwylir i'r Ysgrifennydd i'r Cyngor feithrin perthnasoedd gweithio effeithiol â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-ganghellor. Bydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn hysbysu'r Is-ganghellor am unrhyw fater priodol sy'n ymwneud â busnes y Cyngor ac yn ymgynghori ag ef ynghylch y cyfryw faterion.

(iv) Bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd i'r Cyngor gynghori'r Cyngor mewn perthynas â materion lle gall fod gwrthdaro, posib neu go iawn, rhwng y Cyngor a'r Is-ganghellor.

(v) Disgwylir i'r Ysgrifennydd i'r Cyngor feithrin perthnasoedd gweithio effeithiol â'r uwch-reolwyr eraill yn y Brifysgol er mwyn hwyluso cynnal busnes y Cyngor yn effeithiol. Waeth beth yw rôl ehangach yr Ysgrifennydd yn y Brifysgol, disgwylir y bydd cyfranogiad yr Ysgrifennydd i'r

Cyngor mewn trafodaethau strategol yn y Brifysgol yn ddigonol i'w alluogi i ddarparu arweiniad i'r Cyngor yn ôl yr angen.

(vi) Bydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn datgelu ei fuddiannau personol yn llawn ac yn brydlon yn y Gofrestr.

(vii) Bydd y Cyngor yn diogelu gallu'r Ysgrifennydd i'r Cyngor i gyflawni ei rôl.

**6. Pwyllgorau'r Cyngor**

(i) Bydd yr Ysgrifennydd hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i Bwyllgorau'r Cyngor neu bydd yn gyfrifol am sicrhau y darperir cymorth gweinyddol digonol i Bwyllgorau'r Cyngor a bydd yn derbyn cyllideb i'r diben hwnnw.

**7. Dyletswyddau Eraill**

(i) Bydd yr Ysgrifennydd yn cynnal Cofrestr o Fuddiannau aelodau'r Cyngor ac unrhyw unigolion eraill y mae'n ofynnol iddynt ddarparu datganiad o fuddiannau i'r Cyngor. *Er mai'r aelodau ac eraill sy'n gyfrifol am ddatgan eu gwrthdrawiadau a/neu eu gwrthdrawiadau posib, yr Ysgrifennydd i'r Cyngor fydd yn gyfrifol ac yn atebol am amlygu materion annibyniaeth neu wrthdaro i Gadeirydd y Cyngor.*

(ii) Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am gadw Sêl y Brifysgol ac am ei defnydd priodol.

(iii) Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu ad-dalu i aelodau'r Cyngor unrhyw gostau maent yn mynd iddynt wrth ymgymryd â busnes y Cyngor a bydd yn derbyn cyllideb am y diben.

(iv) Bydd yr Ysgrifennydd yn gweithredu fel gohebydd y Cyngor.

(v) Bydd yr Ysgrifennydd yn gweithredu fel gohebydd ar gyfer Cadeirydd y Cyngor a bydd yn darparu cymorth gweinyddol priodol i'r Cadeirydd, gan gynnwys cynnal dyddiadur ymrwymiadau'r Cadeirydd sy'n berthnasol i'r Brifysgol.

(vi) Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am adolygu'r Ordinhadau a'r deunyddiau cysylltiedig a bydd yn cynghori'r Cyngor pan fydd angen eu diwygio.

(vii) Gan ymgynghori â Chadeirydd y Cyngor, bydd yr Ysgrifennydd yn goruchwylio'r trefniadau i adolygu effeithiolrwydd y Cyngor a'i aelodau o bryd i'w gilydd.

**8. Materion eraill**

(i) Bydd gan yr Ysgrifennydd ddealltwriaeth dda o werthoedd, nodau ac amcanion y Brifysgol ac ymrwymiad iddynt.

(ii) Bydd yr Ysgrifennydd yn gweithredu yn unol â'r safonau ymddygiad sy'n dderbyniol mewn bywyd cyhoeddus gan arfer rhinweddau anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, a bydd yn parchu cyfrinachedd fel y bo'n briodol.

(iii) Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Cyngor at ddiben arfarnu/adolygu perfformiad yn rheolaidd. Bydd y gweithdrefnau hyn ar wahân i weithdrefnau i arfarnu/adolygu unrhyw gyfrifoldebau eraill a all fod gan yr Ysgrifennydd a dylid eu hadrodd i bwyllgor priodol y Cyngor.

(iv) Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd rhan ragweithiol mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol priodol ac yn rhwydweithiau'r sector sy'n berthnasol i'r rôl a chaiff ei benodi gan y Brifysgol yn aelod o Gymdeithas y Penaethiaid Gweinyddol Prifysgolion.